

# Adroddiad ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Tachwedd 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/SeneddDCC](http://www.senedd.cymru/SeneddDCC)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**  
**Senedd Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddDCC](https://twitter.com/SeneddDCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Adroddiad ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Tachwedd 2022



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.

Ceir ei gylch gwaith yn [www.senedd.cymru/SeneddDCC](http://www.senedd.cymru/SeneddDCC)

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**  
**Huw Irranca-Davies AS**  
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**  
Llafur Cymru



**James Evans AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Peredur Owen Griffiths AS \***  
Plaid Cymru

\*Nid oedd Peredur Owen Griffiths AS yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil.

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



**Rhys ab Owen AS**  
Aelod Annibynnol Plaid Cymru

## Cynnwys

|                                                                                                                                                                                                                                           |           |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Argymhellion .....</b>                                                                                                                                                                                                                 | <b>5</b>  |
| <b>1. Cyflwyniad.....</b>                                                                                                                                                                                                                 | <b>6</b>  |
| Cefndir y Bil.....                                                                                                                                                                                                                        | 6         |
| Diben y Bil .....                                                                                                                                                                                                                         | 6         |
| Cylch gorchwyl y Pwyllgor.....                                                                                                                                                                                                            | 7         |
| <b>2. Cymhwysedd deddfwriaethol .....</b>                                                                                                                                                                                                 | <b>9</b>  |
| Cyffredinol.....                                                                                                                                                                                                                          | 9         |
| Hawliau dynol .....                                                                                                                                                                                                                       | 9         |
| Ein barn ni .....                                                                                                                                                                                                                         | 9         |
| <b>3. Sylwadau cyffredinol.....</b>                                                                                                                                                                                                       | <b>11</b> |
| Yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol.....                                                                                                                                                                                                  | 11        |
| Rhyngweithio â Bil Caffael Llywodraeth y DU .....                                                                                                                                                                                         | 11        |
| Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth .....                                                                                                                                        | 15        |
| Ein barn ni .....                                                                                                                                                                                                                         | 16        |
| <b>4. Sylwadau penodol ar adrannau penodol a phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth .....</b>                                                                                                                                                   | <b>18</b> |
| Adran 17 (Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol: Gweinidogion Cymru).....                                                                                                                                                                  | 18        |
| Ein barn ni .....                                                                                                                                                                                                                         | 19        |
| Adran 20 (Gwaith teg).....                                                                                                                                                                                                                | 19        |
| Ein barn ni .....                                                                                                                                                                                                                         | 21        |
| Adran 22 (Awdurdodau contractio); adran 24 (Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol); adran 25 (Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau adeiladu mawr); adran 39 (Adroddiadau caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol)..... | 21        |
| Ein barn ni .....                                                                                                                                                                                                                         | 22        |
| Adran 32 (Y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu) .....                                                                                                                                                                       | 22        |

---

Ein barn ni .....23

Adran 38 (Strategaeth gaffael) .....24

Ein barn ni .....25

Adran 48 (Dod i rym).....26

Ein barn ni .....27

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cynnwys, yn ei adran dehongli, gyfeiriad at y diffiniad o "benderfyniadau o natur strategol" yn y canllawiau statudol ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a wnaed o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*..... Tudalen 19

**Argymhelliad 2.** Dylid cynnwys diffiniad y Comisiwn Gwaith Teg o "waith teg", gyda sylwadau priodol, mewn canllawiau anstatudol i randdeiliaid a chyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*..... Tudalen 21

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cymhwyso'r weithdrefn negyddol i'r pŵer i gyhoeddi'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu yn adran 32 o'r Bil, a diwygiadau iddi yn y dyfodol. .... Tudalen 23

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cynnwys dyletswydd i ymgynghori ar y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu yn adran 32, a diwygiadau i'r cod yn y dyfodol..... Tudalen 24

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cynnwys dyletswydd i ymgynghori ar ganllawiau a gyhoeddir o dan adran 43, a diwygiadau i ganllawiau o'r fath yn y dyfodol..... Tudalen 24

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyhoeddi fersiwn ddrafft o'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu cyn dechrau Cyfnod 3 y Bil..... Tudalen 24

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r pŵer yn adran 38(3)(a). .... Tudalen 25

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r pŵer yn adran 38(3)(b). .... Tudalen 25

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Dirprwy Weinidog egluro at ba gonfensiwn y mae'n cyfeirio yn ei llythyr ar 15 Hydref 2022 at y Pwyllgor..... Tudalen 25



## 1. Cyflwyniad

Ar 7 Mehefin 2022, cyflwynodd Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol (y Dirprwy Weinidog) y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)<sup>1</sup> (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.<sup>2</sup>

1. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Senedd y Bil i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 24 Mai 2022 ac, ar 14 Mehefin 2022, pennodd 18 Tachwedd 2022 fel y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorin cyffredinol.<sup>3</sup>
2. Ar 13 Mehefin 2022, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog ddatganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil.<sup>4</sup>

## Cefndir y Bil

3. Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddrafft o'r Bil ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.<sup>5</sup>
4. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod "cefnogaeth sylweddol i'r darpariaethau" yn y Bil drafft ac "at ei gilydd roedd yr ymatebwyr yn cytuno" y byddai deddfwriaeth yn cryfhau'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol yng Nghymru.<sup>6</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cadarnhau, yn dilyn yr ymgynghoriad, y gwnaed nifer o newidiadau polisi, sydd bellach wedi'u hadlewyrchu yn y Bil.<sup>7</sup>

## Diben y Bil

5. Enw hir y Bil yw:

---

<sup>1</sup> Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

<sup>2</sup> Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Mehefin 2022

<sup>3</sup> Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), Mehefin 2022

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Y bwriad polisi ar gyfer rheoliadau, cyfarwyddiadau a chanllawiau, Mehefin 2022

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, Bil Drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), Chwefror 2021

<sup>6</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 147

<sup>7</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 150

---



*"Deddf gan Senedd Cymru i wneud darpariaeth ynghylch datblygu cynaliadwy yn unol ag egwyddor partneriaeth gymdeithasol; ynghylch chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol; i sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru, ac at ddibenion cysylltiedig."*

**6.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod y Bil yn "darparu ar gyfer fframwaith i wella llesiant pobl Cymru, gan wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol."<sup>8</sup>

## **Cylch gorchwyl y Pwyllgor**

**7.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**8.** Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir yn y Senedd, byddwn yn ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw Biliau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (hawliau'r Confensiwn);
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall rydym yn ystyried ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

**9.** Y bwriad oedd clywed tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog yn ein cyfarfod ar 12 Medi 2022.<sup>9</sup> Fodd bynnag, yn sgil cyfnod o alaru cenedlaethol yn y Senedd yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines, ataliwyd busnes y Senedd ar y dyddiad hwn. Yn lle'r sesiwn dystiolaeth, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Dirprwy Weinidog ar 22 Medi 2022;<sup>10</sup> ymatebodd y Dirprwy Weinidog ar 14 Hydref 2022.<sup>11</sup>

---

<sup>8</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 1

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Medi 2022

<sup>10</sup> Llythyr at y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 20 Medi 2022

<sup>11</sup> Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022

**10.** Rydym hefyd wedi ystyried tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar a roddwyd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.<sup>12</sup>

---

<sup>12</sup> Gweler y dudalen we ar gyfer y Bil.

---

## 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.<sup>13</sup>

### Cyffredinol

11. Buom yn ystyried y Bil o dan y model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol, fel y'i nodir yn adran 108A o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** (Deddf 2006).
12. Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, datganodd Elin Jones AS, y Llywydd, y byddai'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.<sup>14</sup>
13. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog gadarnhau ei bod yn fodlon bod holl ddarpariaethau'r Bil fel y'i cyflwynwyd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Wrth ymateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog y canlynol:

*"Yn ei llythyr at Brif Weinidog Cymru ar 6 Mehefin, cadarnhaodd y Llywydd fod y Bil hwn, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."*<sup>15</sup>

### Hawliau dynol

14. Mae un o'r gofynion y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn i Fil fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd wedi'i nodi yn adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i holl ddarpariaethau Bil gydymffurfio â hawliau'r Confensiwn.
15. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym na nodwyd bod materion hawliau dynol yn deillio o'r Bil.<sup>16</sup>

### Ein barn ni

16. Nodwn fod y Llywydd wedi datgan y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

---

<sup>13</sup> Memorandwm Esboniadol, Datganiad yr Aelod, tudalen 2

<sup>14</sup> Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol, 7 Mehefin 2022

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 1

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 2

**17.** Nodwn fod y Dirprwy Weinidog wedi datgan ei barn hi, yn y Memorandwm Esboniadol, y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, rydym yn siomedig nad yw wedi gallu cadarnhau'r farn hon i ni mewn gohebiaeth a'i bod, yn lle hynny, wedi ein cyfeirio at farn y Llywydd.

**18.** Nodwn farn y Dirprwy Weinidog na nodwyd bod materion hawliau dynol yn deillio o'r Bil.

### 3. Sylwadau cyffredinol

#### Yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol

**19.** Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog nodi pam y dewisodd Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â phartneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol, yn lle mabwysiadu dull anstatudol. Wrth ymateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog y canlynol:

*"Mae llawer o'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol sy'n bodoli yng Nghymru wedi datblygu'n wirfoddol ac yn organig. Ar hyn o bryd, nid oes fframwaith cyffredin sy'n sail iddynt, ac nid ydynt yn cael eu cydlynu gyda'r bwriad o sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. ...*

*Gellir disgwyl i'r trefniadau partneriaeth gymdeithasol anffurfiol ac ad-hoc presennol barhau heb ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn credu mai dim ond i ryw bwynt y gellir cydlynu gwelliannau effeithiol o ran gwasanaethau cyhoeddus a lles heb sail statudol i bartneriaeth gymdeithasol. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn hybu mwy o gysondeb ac yn cryfhau effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, gyda phwrrpas clir iawn mewn golwg.*

*Mae sawl adolygiad o brosesau caffael cyrff cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf wedi nodi diffyg cysondeb wrth geisio cyflawni ym maes lles. Er bod llawer o enghreifftiau o arferion da sy'n seiliedig ar y canllawiau presennol, bydd deddfwriaeth, ynghyd â system o oruchwylio ac atebolrwydd, yn sicrhau bod yr arferion da yn cael eu gweithredu'n ehangach."*<sup>17</sup>

#### Rhyngweithio â Bil Caffael Llywodraeth y DU

**20.** Ym mis Awst 2021 dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn cynnig gan Lywodraeth y DU i "ddefnyddio deddfwriaeth Llywodraeth y DU wrth inni ymadael â'r UE i ddiwygio'r prosesau sylfaenol sy'n sail i gaffael". Dywedodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cael "mesurau diogelu clir iawn" na fyddai gwneud hynny'n llyffetheirio ar ei gallu i gyflawni canlyniadau polisi'r Bil.<sup>18</sup>

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 4

<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Y Ffordd Ymlaen ar gyfer Diwygio Caffael yng Nghymru, 18 Awst 2021

**21.** Yn dilyn hynny, cyflwynwyd Bil Caffael Llywodraeth y DU yn Senedd y DU ar 11 Mai 2022.<sup>19</sup> Cyflwynodd Llywodraeth Cymru femoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Bil ar 9 Mehefin 2022<sup>20</sup> ac 11 Gorffennaf 2022,<sup>21</sup> a gyfeiriwyd i ni a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus er mwyn craffu arnynt.<sup>22</sup>

**22.** Nododd y Dirprwy Weinidog y rhyngweithio rhwng y ddau Fil fel a ganlyn:

*"...er bod cynigion Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar brosesau caffael, fod y ddau Fil yn rhannu'r amcanion lefel uchel o leihau'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â chaffael, gan gynyddu tryloywder a chryfhau atebolrwydd.*

*Mae angen sicrhau cysondeb terminoleg rhwng y ddau Fil. Y prif feysydd cysylltiedig yw:*

- *y gorgyffwrdd rhwng Datganiad Polisi Caffael Cymru y cyfeirir ato ym Mil y DU a'r nodau llesiant y cyfeirir atynt yn y Bil hwn;*
- *y mecanwaith ar gyfer olrhain dangosyddion perfformiad allweddol ym Mil y DU a'r broses adrodd flynyddol yn y Bil hwn;*
- *y trefniadau goruchwyllo sydd eu hangen ar gyfer Bil y DU ac is-bwyllgor caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol."*<sup>23</sup>

**23.** Fel rhan o'n gwaith craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael, gofynnwyd i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol pa ystyriaeth yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i ddefnyddio'r amser a nodwyd ganddi ar gyfer Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) i gyflwyno Bil caffael ehangach sy'n ei gwmpasu ef a Bil Caffael Llywodraeth y DU. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

*"Byddai ymgorffori'r Bil Caffael o fewn y Bil SPPP yn golygu newid cwmpas y Bil SPPP, gan y byddai'n cael ei newid i fod yn Fil Caffael yn bennaf ac yn symud ei ffocws oddi wrth Bartneriaethau Gymdeithasol. Hefyd, mae'r ddau Fil yn anelu at gyflawni gwahanol bethau – mae'r Bil Caffael yn canolbwyntio ar y prosesau sy'n gosod y seiliau ar gyfer caffael, tra bo'r Bil SPPP yn*

---

<sup>19</sup> Senedd y DU, [Bil Caffael \[HL\]](#)

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Caffael](#), 9 Mehefin 2022

<sup>21</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\): Bil Caffael](#), 9 Mehefin 2022

<sup>22</sup> Ewch i'r dudalen we: [Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Caffael](#)

<sup>23</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 10

*canolbwyntio ar sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn arwain at ganlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol.*"<sup>24</sup>

**24.** Felly, gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog esbonio pam y byddai newid cwmpas y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) i gynnwys prosesau caffael yn achosi problem, yn enwedig pe bai'r Bil yn adlewyrchu'r hyn roedd Llywodraeth y DU yn ei gynnig ac yn arwain at ddeddfwriaeth ddwyieithog fwy hygyrch. Wrth ymateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog y canlynol:

*"Roedd Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai cael Bil cyfun, a'r gwahaniaethau anochel a fyddai wedi codi rhwng Cymru a gweddill y DU, yn debygol o greu costau uwch i awdurdodau a chyflenwyr contractio Cymru, fel ei gilydd, o ran trafodion a chynigion. ...*

*Pe bai Gweinidogion Cymru wedi penderfynu deddfu'n annibynnol ar Llywodraeth y DU, o ystyried y cymhlethdod a'r angen i alinio'r manylion, byddai'r ddeddfwriaeth Gymreig wedi'i gweithredu'n ddiweddarach. ...*

*Bydd safonau'r Gymraeg yn parhau, fel nawr, i fod yn berthnasol i brosesau a systemau caffael yng Nghymru, gan sicrhau bod modd caffael drwy gyfrwng y Gymraeg.*"<sup>25</sup>

**25.** At hynny, gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried Bil caffael ar wahân sy'n adlewyrchu'r darpariaethau ym Mil Caffael Llywodraeth y DU, yn destun craffu gan Aelodau o'r Senedd, a fyddai'n cyd-fynd â'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael. Wrth ymateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y "cafodd pob opsiwn ei ystyried yn ofalus", a'i bod yn:

*"bwysig nodi hefyd bod Aelodau'r Senedd wrthi'n craffu ar Fil y DU drwy'r broses Cydsyniad Deddfwriaethol, a bydd hyn yn parhau wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth yng Nghymru.*"<sup>26</sup>

**26.** Yn ogystal, yn sgil y ffaith bod Bil Caffael Llywodraeth y DU yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog pam mae'n bosibl sicrhau cysondeb drwy is-ddeddfwriaeth ar wahân sy'n cael ei gweithredu yng Nghymru

---

<sup>24</sup> Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, ymateb i gwestiwn 1

<sup>25</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 6

<sup>26</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 8



a Lloegr, ond nid drwy ddeddfwriaeth sylfaenol ar wahân. Wrth ymateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog y canlynol wrthym:

*"Wrth weithio ar is-ddeddfwriaeth, bydd swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau cysondeb, sy'n hanfodol i brynwyr a chyflenwyr, fel ei gilydd, ar hyn o bryd. ...*

*Fodd bynnag, bydd pwerau cyfatebol yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau os bydd polisi Cymru yn newid yn y dyfodol. Ni fyddai newidiadau o'r fath yn rhai dramatig, gan mai ar un neu ddwy agwedd yn unig y byddent yn debygol o effeithio yn hytrach nag ar bob maes lle mae pwerau cyfatebol. Byddent hefyd yn ddarostyngedig i'r Fframwaith Cyffredin, gan fod polisiau a deddfwriaeth a ddatblygir yn cael eu trafod gan Weithgor y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Caffael Cyhoeddus er mwyn rhoi sylw i achosion o ddulliau gweithredu gwahanol."*<sup>27</sup>

**27.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai ei nod yw cynhyrchu cyfraith dda sy'n "angenrheidiol, yn eglur, yn ystyrlon, yn effeithiol ac yn hygyrch".<sup>28</sup> Mae *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* hefyd yn gosod dyletswydd ar y Cwnsler Cyffredinol i gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad, gan gynnwys y graddau y mae ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r graddau y mae wedi ei threfnu'n glir ac yn rhesymegol (o fewn deddfiadau yn ogystal â rhwng deddfiadau).<sup>29</sup>

**28.** Os caiff y Bil a Bil Caffael Llywodraeth y DU eu pasio, bydd cyfraith caffael sy'n gymwys i ddinasyddion Cymru yn cael ei chynnwys mewn Deddfau gan Senedd Cymru a Senedd y DU. Gyda hyn mewn golwg, gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog esbonio pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi dilyn ei hegwyddorion ei hun, sef deddfwriaeth glir a hygyrch, drwy ddilyn y dull hwn o ddeddfu ar gyfraith caffael. Wrth ymateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog y canlynol wrthym:

*"Mae ymarferwyr caffael yng Nghymru eisoes wedi arfer â gweithio o dan fwy nag un gyfres o ddeddfwriaeth ... er enghraifft mae angen iddynt ystyried y gofynion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 eisoes.*

---

<sup>27</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 9

<sup>28</sup> Llywodraeth Cymru, *Llawlyfr Deddfwriaeth ar Filiau'r Cynulliad*, Mai 2019, paragraff 1.8

<sup>29</sup> Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, adran 1

---

*Byddai'r effaith negyddol bosibl ar brynwyr a chyflenwyr yn sgil deddfwriaeth wahanol ar brosesau caffael wedi bod yn sylweddol. Byddai'r cymhlethdod ychwanegol hwn hefyd yn effeithio ar gyflenwyr o Gymru sy'n gwneud cynigion am gcontractau cyhoeddus y tu allan i Gymru. Gan fod y ddau Fil yn symud ymlaen ar sail amserlenni tebyg, bydd hyn yn caniatáu i'r canllawiau, yr hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir i brynwyr a chyflenwyr gael eu datblygu mewn ffordd glir a hwylus. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r rheini yn nhîm diwygio prosesau caffael Llywodraeth Cymru sy'n gweithio gyda'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU i sicrhau cysondeb a chydlyniant rhwng y ddau Fil."*<sup>30</sup>

## **Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth**

**29.** Mae'r Bil yn cynnwys 49 o adrannau a dwy Atodlen, ac mae wedi'i rannu yn bedair Rhan. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys:

- pum pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau,
- un pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod, a
- dau bŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddydau.

**30.** Mae trosolwg o bwerau'r Bil i wneud is-ddeddfwriaeth wedi'i gynnwys ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol. Fel y soniwyd eisoes, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi datganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil.

**31.** Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog a oedd yn fodlon bod y Bil yn taro'r cydbwysedd cywir o ran darparu manylion ar wyneb y Bil yn erbyn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru. Wrth ymateb, dywedodd y canlynol:

*"Yr unig bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil hwn yw'r rhai yn rhan 3, sy'n delio â chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol. Maent wedi'u cynnwys er mwyn ein galluogi i wneud unrhyw newidiadau gweithredol y bydd eu hangen yn y dyfodol: er enghraifft, diwygio'r rhestr o awdurdodau contractio sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r deddfwriaeth, neu addasu'r rhestr o faterion y mae'n ofynnol i'r cyrff hynny eu hystyried wrth*

---

<sup>30</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 11

*lunio eu strategaethau caffael, sy'n debygol o newid dros amser wrth i flaenoriaethau strategol esblygu.*"<sup>31</sup>

## **Ein barn ni**

**32.** Rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Bil cyn ei gyflwyno. Rydym yn cytuno â barn y pwyllgorau a'n rhagflaenodd<sup>32</sup> bod hyn yn arfer da ac, o gofio'r manteision posibl i ansawdd y gyfraith a gynhyrchir, y dylid cael tybiaeth o blaid cyhoeddi biliau drafft ac ymgynghori arnynt.

**33.** Rydym yn cydnabod esboniad y Dirprwy Weinidog pam mae'n ystyried ei bod yn briodol cyflwyno deddfwriaeth, yn hytrach na dilyn dull anstatudol.

**34.** Rydym hefyd yn cydnabod tystiolaeth y Dirprwy Weinidog mewn perthynas â'r is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil a'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad o friad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil. Er nad ydym yn credu y dylid defnyddio "newidiadau gweithredol y bydd eu hangen yn y dyfodol" fel cyfiawnhad dros gynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o fewn deddfwriaeth sylfaenol, rydym yn cydnabod yr enghreifftiau y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'u darparu o sut y gellir defnyddio'r pwerau o fewn y Bil hwn. Felly, rydym yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.

**35.** Nid ydym yn cytuno â barn y Dirprwy Weinidog am y "gwahaniaethau anochel a fyddai wedi codi" rhwng Cymru a gweddill y DU yn sgil cyflwyno Bil caffael ehangach a fyddai'n cynnwys cwrpas Bil Caffael Llywodraeth y DU a Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Yn wir, mae gwahaniaeth eisoes rhwng yr Alban a gweddill y DU yn rhinwedd *Deddf Diwygio Caffael (yr Alban) 2014*.<sup>33</sup> Rydym o'r farn y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n sicrhau'r gwahaniaeth lleiaf posibl ym meysydd prosesau caffael, gan alluogi cymaint o wahaniaeth â'r hyn sydd ei angen ym maes y canlyniadau caffael, ac adlewyrchiad gwerthoedd Llywodraeth Cymru ynddynt.

---

<sup>31</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 14

<sup>32</sup> Gweler, er enghraifft, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pedwerydd Cynulliad), *Deddfu yng Nghymru*, Hydref 2015, Argymhelliad 3; y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Bumod Senedd), *Adroddiad ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)*, Awst 2019 paragraff 62

<sup>33</sup> Dewisodd Llywodraeth yr Alban beidio ag ymuno â Bil Caffael Llywodraeth y DU, fel y datganwyd yn y ddogfen *papur polisi Llywodraeth y DU ar y Bil* (cyhoeddwyd ar 16 Mehefin 2022)

---

**36.** Rydym hefyd yn nodi ei bod yn ymddangos bod oedi eisoes cyn gweithredu'r Bil Caffael,<sup>34</sup> sy'n dwyn amheuaeth ar awgrym y Dirprwy Weinidog y byddai cynnwys darpariaethau o fewn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) wedi golygu bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu deddfwriaeth Gymreig yn ddiweddarach.

**37.** Hoffem hefyd honni'n barchus, er bod "Aelodau'r Senedd wrthi'n craffu ar Fil [Caffael Llywodraeth] y DU drwy'r broses Cydsyniad Deddfwriaethol", fod gwaith craffu o'r fath yn wahanol iawn i'r gwaith craffu deddfwriaethol ar Fil a gyflwynir i'r Senedd. Mae ystyried Bil o'r fath yn cynnwys ymgynghoriad eang ar ei egwyddorion cyffredinol cyn gwaith craffu fesul llinell mewn pwyllgor ac ar lawr y Senedd; elfennau sy'n gwbl absennol o'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

**38.** Nodwn sylw'r Dirprwy Weinidog y bydd safonau'r Gymraeg<sup>35</sup> yn parhau i fod yn gymwys i brosesau a systemau caffael yng Nghymru, gan sicrhau bod modd caffael drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, gan mai'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n sail i'r holl brosesau a systemau caffael o'r fath yw'r modd awdurdodol o'u deall, credwn na fydd y ffaith mai dim ond drwy gyfrwng y Saesneg y bydd y ddeddfwriaeth hon ar gael o fewn Bil Caffael Llywodraeth y DU yn cyfrannu i hygyrchedd prosesau a systemau caffael i siaradwyr Gymraeg.

**39.** Ymhellach, hoffem bwysleisio mai Llywodraeth y DU fydd yn darparu'r hyfforddiant a chanllawiau gofynnol ar y prosesau a systemau caffael newydd a ddarperir gan y Bil Caffael, fel y mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cadarnhau.<sup>36</sup> Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid yw Llywodraeth y DU yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg; felly nid oes dyletswydd orfodadwy arni i ddarparu canllawiau a hyfforddiant o'r fath drwy gyfrwng y Gymraeg.

**40.** Rydym yn gwneud rhai o'r pwyntiau hyn yn ein hadroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ailadrodd y casgliad y daethom iddo yn yr adroddiad hwnnw.

**Casgliad 1.** Pan fo opsiwn i Lywodraeth Cymru gyflwyno darpariaethau mewn Bil gan y Senedd sydd ar ddod, rydym yn credu y dylid cael tybiaeth gryf iawn o blaid yr opsiwn hwnnw, er mwyn galluogi gwaith craffu helaeth gan bobl Cymru a'r Aelodau o'r Senedd y maent wedi'u hethol, ac er mwyn galluogi deddfwriaeth hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg.

---

<sup>34</sup> Gweler: Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael: Ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tudalen 18; y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [115]

<sup>35</sup> Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Rhan 4: Rhestr o reoliadau safonau'r Gymraeg (legislation.gov.uk)

<sup>36</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [46]

---

## 4. Sylwadau penodol ar adrannau penodol a phwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

### Adran 17 (Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol: Gweinidogion Cymru)

**41.** Mae adran 17 o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru (i'w greu gan adran 1 o'r Bil "wrth wneud penderfyniadau o natur strategol" ynghylch y camau rhesymol i'w cymryd i gyflawni eu hamcanion llesiant o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*).

**42.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, dywedodd Archwilio Cymru y canlynol mewn cysylltiad ag adran 17:

*"... rydym yn meddwl sut y gall ystyr "penderfyniadau natur strategol" (ynghylch y camau rhesymol i'w cymryd o dan adran 3(2)(b) o WFGA 2015 i fodloni amcanion llesiant Gweinidogion Cymru), gael eu hegluro'n briodol. Nid yw'n ymddangos yn gwbl briodol i Weinidogion Cymru fod yn rhoi arweiniad iddynt eu hunain ar ddehongli'r ymadrodd hwn. Gall eglurhad o "natur strategol" ar wyneb y Bil fod yn fwy priodol."<sup>37</sup>*

**43.** Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog a oedd wedi ystyried egluro'r ymadrodd "penderfyniadau o natur strategol" ar wyneb y Bil. Wrth ymateb, dywedodd y canlynol:

*"Yn ddiweddar, drwy fynd ati i ddeddfu ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, rydym wedi darparu canllawiau ar yr hyn a olygir wrth 'benderfyniadau o natur strategol' fel y nodir yn adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r canllawiau hyn yn darparu enghreifftiau o benderfyniadau strategol y gallai cyrff cyhoeddus eu gwneud, gan gynnwys cynlluniau tymor canolig a hir megis cynlluniau corfforaethol, ac wrth gwrs amcanion a bennir.*

*Yn gyffredinol, penderfyniadau strategol fydd y rhai sy'n effeithio ar sut mae'r corff cyhoeddus yn cyflawni ei bwrpas statudol arfaethedig dros gyfnod sylweddol o amser, ac ni fyddant yn cynnwys penderfyniadau dydd i ddydd arferol."<sup>38</sup>*

---

<sup>37</sup> Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Bil SPPP 29 – Archwilio Cymru](#), paragraff 6

<sup>38</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 12

## Ein barn ni

---

**44.** Rydym yn cydnabod datganiad y Dirprwy Weinidog bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar ystyr yr ymadrodd “penderfyniadau o natur strategol”, ac enghreifftiau o benderfyniadau o’r fath.<sup>39</sup>

**45.** Fodd bynnag, am resymau hygyrchedd, credwn y dylai’r adran dehongli o’r Bil gynnwys cyfeiriad at y diffiniad sydd wedi’i gynnwys yn y canllawiau statudol.

**Argymhelliad 1.** Dylai’r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil er mwyn cynnwys, yn ei adran dehongli, gyfeiriad at y diffiniad o “benderfyniadau o natur strategol” yn y canllawiau statudol ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a wnaed o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015*.

## Adran 20 (Gwaith teg)

**46.** Mae adran 20 y Bil yn diwygio adran 4 o *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015* drwy roi “gwaith teg” yn lle “gwaith addas” yn y nod presennol “Cymru ffyniannus”.

**47.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae’r ddarpariaeth hon yn disodli “lle” ar gyfer darpariaethau gwaith teg a gafodd eu cynnwys yn y Bil drafft.<sup>40</sup> Esboniodd y ddogfen ymgynghori a oedd yn cyd-fynd â’r Bil drafft y sail resymegol dros gynnwys lle o’r fath:

*“Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld Cymru’n datblygu i fod yn ‘genedl gwaith teg’. Rydym yn ardystio’r diffiniad o waith teg a nodir yn adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg ac a dderbynnir yn helaeth: ‘Ystyr gwaith teg yw bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli’n deg, bod ganddynt sicrwydd a’u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau’n cael eu parchu.’ ...*

*Roedd adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, Gwaith Teg yng Nghymru, yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi’i chyfyngu o ran beth y gall wneud yn ddeddfwriaethol o fewn y setliad datganoli presennol. Roedd Gwaith Teg yng Nghymru hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ac yn manteisio ar bob cyfle o fewn ei chymhwysedd deddfwriaethol i ddatblygu gwaith teg.*

*Felly, yn unol â’r argymhellion, rydym yn ceisio archwilio drwy’r Bil drafft hwn sut gallwn symud gwaith teg yn ei flaen o fewn ein cymhwysedd*

---

<sup>39</sup> Llywodraeth Cymru, *Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: canllawiau statudol*, Mawrth 2021

<sup>40</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 150

*deddfwriaethol, gan gynnal uchelgais y Llywodraeth i wneud Cymru'n 'wlad o waith teg'. "41*

**48.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod yr ymarfer ymgynghori wedi canfod nad oedd "consensws clir ynghylch y diffiniad o waith teg y dylid ei ymgorffori yn y gyfraith", ond bod "cefnogaeth gref ymhlith rhai ymatebwyr i fabwysiadu'n llawn y diffiniad o waith teg a roddwyd yn adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg."<sup>42</sup>

**49.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, nododd yr Athro Alan Felstead o Brifysgol Caerdydd y canlynol:

*"The accompanying Explanatory Memorandum attached to the tabled Bill suggests that the integration fair work into the Well-being of Future Generations Act 2015 ... will mean that 'fair work takes on its ordinary meaning', even though the term has very specific meaning which has been accepted by Welsh Government. No definition of fair work is provided in either the tabled Bill or the Explanatory Memorandum."*<sup>43</sup>

**50.** Cafwyd darpariaethau hefyd yn y Bil drafft a osododd ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu amcanion gwaith teg, i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny, ac i adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd yn hynny o beth.<sup>44</sup>

**51.** Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog pam nad oedd y darpariaethau hyn wedi'u cynnwys yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, ac a oeddent wedi'u dileu oherwydd y terfynau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Wrth ymateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog y canlynol wrthym:

*"Mae ar gof a chadw ein bod wedi derbyn diffiniad y Comisiwn Gwaith Teg o waith teg a'i nodweddion yn ein gwaith polisi. Mae hynny'n dal i fod yn wir. Ond nid yw hynny'ngolygu y gallwn ddeddfu ynghylch y diffiniad hwnnw. ...*

*Mae egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyson â'r dull gweithredu cyffredinol yn holl elfennau'r Bil, lle mae darpariaethau eraill yn gysylltiedig â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn y Ddeddf honno. Mae ein dull gweithredu hefyd yn adlewyrchu ysbryd argymhelliad y*

---

<sup>41</sup> Llywodraeth Cymru, Dogfen Ymgynghori: Bil drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), paragraffau 66-69

<sup>42</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 148

<sup>43</sup> Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Bil SPPP.02 – Yr Athro Alan Felstead, Prifysgol Caerdydd, tudalen 4

<sup>44</sup> Llywodraeth Cymru, Dogfen Ymgynghori: Bil drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), paragraff 63

---



*Comisiwn Gwaith Teg i ymgorffori gwaith teg o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. ...*

*Mae'r dull hwn yn cwmpasu ein cyrff cyhoeddus, ac felly mae ei effaith yn ehangach, ac o bosibl yn fwy, nag effaith Dyletswydd Gwaith Teg ar Weinidogion Cymru yn unig, fel y cynigiwyd yn flaenorol. Credaf ei bod yn bwysig hefyd osgoi defnyddio termau gwahanol a all gael eu dehongli i gwmpasu gweithgarwch sy'n eithaf tebyg neu sy'n gorgyffwrdd, h.y. gwaith addas a gwaith teg. Gwyddom ar sail ein gwaith ymgynghori bod cysondeb terminoleg yn rhywbeth a gaiff ei groesawu. Gallai hyn oll gyfrannu at ddull mwy effeithiol o ystyried gwaith teg wrth geisio sicrhau lles."<sup>45</sup>*

## Ein barn ni

---

**52.** Rydym yn cydnabod esboniad y Dirprwy Weinidog nad oedd Llywodraeth Cymru, oherwydd cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn gallu darparu diffiniad o "waith teg" yn y Bil.

**53.** Rydym hefyd yn cydnabod datganiad y Dirprwy Weinidog bod y dull a fabwysiadwyd yn y Bil yn cwmpasu cyrff cyhoeddus "ac felly mae ei effaith yn ehangach" na dyletswydd gwaith teg annibynnol a osodir ar Weinidogion Cymru yn unig, fel y cynigiwyd yn y Bil drafft.

**54.** Fodd bynnag, nodwn sylwadau'r Athro Alan Felstead mewn perthynas ag absenoldeb diffiniad o "waith teg", naill ai ar wyneb y Bil neu yn y Memorandwm Esboniadol. Credwn nad yw'r esboniad yn y Memorandwm Esboniadol y bydd "'gwaith teg' yn golygu yn union hynny" yn annigonol ac y gallai fod yn destun dryswch.

**Argymhelliad 2.** Dylid cynnwys diffiniad y Comisiwn Gwaith Teg o "waith teg", gyda sylwadau priodol, mewn canllawiau anstatudol i randdeiliaid a chyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

**Adran 22 (Awdurdodau contractio); adran 24 (Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol); adran 25 (Dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol: contractau adeiladu mawr); adran 39 (Adroddiadau caffael cymdeithasol gyfrifol blynyddol)**

**55.** Mae adran 22(4) o'r Bil yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, er mwyn diwygio adran 22 ac Atodlen 1 sy'n rhestru

---

<sup>45</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 3



“awdurdodau contractio”. Felly, pŵer Harri’r Wythfed yw hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru “ychwanegu neu dynnu awdurdodau contractio o’r rhestr o gyrff sy’n ddarostyngedig i’r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn y dyfodol.”<sup>46</sup>

**56.** Mae adran 24(8) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol, er mwyn rhagnodi contractau sy’n “gontractau rhagnodedig” at ddibenion Rhan 3 o’r Ddeddf. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i “ymateb yng ngoleuni’r angen i osod dyletswyddau mewn perthynas â rhai contractau yn y dyfodol.”<sup>47</sup>

**57.** Mae adran 25(3) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol, er mwyn diwygio adran 25 (sy’n diffinio contractau adeiladu mawr). Eto, pŵer Harri’r Wythfed yw hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru “i ymateb i newidiadau yn y dyfodol.”<sup>48</sup>

**58.** Rydym yn nodi bod y Gweinidog yn esbonio mai’r rheswm dros ddefnyddio’r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer pwerau gwneud rheoliadau o dan adrannau 22(4), 24(8) a 25(3) yw oherwydd y bydd y rheoliadau’n diwygio deddfwriaeth sylfaenol.<sup>49</sup>

**59.** Mae adran 39(2) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol, er mwyn rhagnodi gwybodaeth arall y dylai adroddiadau caffael cymdeithasol gyfrifol ei chynnwys.

## **Ein barn ni**

---

**60.** Rydym yn fodlon â chymhwyso’r weithdrefn gadarnhaol i’r pwerau Harri’r Wythfed a geir yn adrannau 22(4), 24(8) a 25(3), a’r weithdrefn negyddol i’r pŵer yn adran 39(2) o’r Bil.

## **Adran 32 (Y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a’r gweithlu)**

**61.** Mae adran 32 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer (“y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a’r gweithlu”) ynghylch materion cyflogaeth a phensiynau sy’n ymwneud ag allanoli contractau gwasanaethau. Bydd y “cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol” yn cael eu cynnwys fel rhan o’r cod hwnnw. Mae adrannau eraill (megis adran 33) hefyd yn darparu bod yn rhaid i’r cod a gyhoeddir o dan adran 32 gynnwys cymalau contract

---

<sup>46</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 44

<sup>47</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 44

<sup>48</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 44

<sup>49</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 44

enghreiffiol, a fydd yn sail i nodau'r Bil o ran sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Ni fydd y cod yn ddarostyngedig i weithdrefn graffu yn y Senedd.

**62.** Y cyfiawnhad a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer diffyg gweithdrefn i'r pŵer o dan adran 32 yw oherwydd bod y cod ymarfer yn ymdrin â "materion gweithredol sy'n gysylltiedig ag allanoli contractau ar gyfer gwasanaethau".<sup>50</sup>

**63.** Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog am ragor o fanylion ynghylch pam na chymhwyswyd gweithdrefn i'r pŵer hwn, pam nad oes dyletswydd i ymgynghori ar y cod, ac a fyddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cod ymarfer drafft cyn cyfnodau diwygio'r Bil. Wrth ymateb, dywedodd y canlynol:

*"Bydd yr holl ganllawiau statudol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth gymdeithasol ac yn cynnwys ymgynghori'n agored â rhanddeiliaid. Ni all y broses hon ddechrau'n ffurfiol nes i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol, er y bydd gwaith rhagarweiniol yn cael ei wneud ymlaen llaw. O ystyried faint o ganllawiau statudol y bydd eu hangen i gefnogi'r dyletswyddau caffael, byddai'n anodd paratoi Cod Ymarfer drafft mewn pryd ar gyfer cyfnodau diwygio'r Bil."*<sup>51</sup>

## Ein barn ni

---

**64.** Rydym yn nodi sylwadau'r Dirprwy Weinidog mewn perthynas ag adran 32 o'r Bil. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn aneglur i ni pam na chymhwyswyd gweithdrefn i bŵer Gweinidogion Cymru i gyhoeddi'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu. Rydym o'r farn y bydd y cod â rôl ganolog yn nodau'r Bil o ran sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol, ac oherwydd hynny dylai fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol o leiaf.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cymhwyso'r weithdrefn negyddol i'r pŵer i gyhoeddi'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu yn adran 32 o'r Bil, a diwygiadau iddi yn y dyfodol.

**65.** Nodwn sylw'r Dirprwy Weinidog y bydd yr holl ganllawiau statudol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth ac yn cynnwys ymgynghoriad agored â rhanddeiliaid. Gan fod y Dirprwy Weinidog wedi ymrwmo i ymgynghori ar yr holl ganllawiau statudol fel hyn, ni welwn reswm

---

<sup>50</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 46

<sup>51</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 15

---

pam na ellir cynnwys dyletswydd i ymgynghori ar y cod, a diwygiadau iddo yn y dyfodol, ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cynnwys dyletswydd i ymgynghori ar y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu yn adran 32, a diwygiadau i'r cod yn y dyfodol.

**66.** Yn ogystal, gan y bydd yr holl ganllawiau statudol o dan y Bil yn cael eu datblygu mewn partneriaeth ac yn ddarostyngedig i ymgynghoriad, credwn hefyd y byddai'n briodol cynnwys, ar wyneb y Bil, ddyletswydd i ymgynghori ar ganllawiau a gyhoeddir o dan adran 43.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cynnwys dyletswydd i ymgynghori ar ganllawiau a gyhoeddir o dan adran 43, a diwygiadau i ganllawiau o'r fath yn y dyfodol.

**67.** Rydym yn cydnabod datganiad y Dirprwy Weinidog y byddai'n "anodd" paratoi cod drafft mewn pryd ar gyfer cyfnodau diwygio'r Bil. Fel y nodwyd eisoes, rydym o'r farn bod gan y cod rôl ganolog yn nodau'r Bil ac, am y rheswm hwnnw, credwn y dylai Aelodau o'r Senedd gael cyfle i graffu ar fersiwn ddrafft ohono fel rhan o'u gwaith craffu ar y Bil.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyhoeddi fersiwn ddrafft o'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu cyn dechrau Cyfnod 3 y Bil.

## Adran 38 (Strategaeth gaffael)

**68.** Mae adran 38(3) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, er mwyn diwygio adran 38(2):

- er mwyn pennu materion eraill y mae rhaid i strategaethau caffael ymdrin â hwy;
- er mwyn lleihau nifer y diwrnodau a bennir yn adran 38(2)(c) (yr uchafswm nifer y dyddiau ar gyfer talu anfoneb).

**69.** Mae'r Dirprwy Weinidog yn cyfiawnhau cymhwyso'r weithdrefn negyddol i'r pŵer Harri'r Wythfed hwn i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy ddweud y canlynol:

*"Er y bydd rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, mater gweithredol i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru yw natur benodol strategaethau caffael."*<sup>52</sup>

---

<sup>52</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 44

**70.** Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog pam mae wedi penderfynu cymhwyso'r weithdrefn negyddol i'r pŵer Harri'r Wythfed hwn, yn lle'r weithdrefn gadarnhaol fel y byddai canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn argymhell fel arfer.<sup>53</sup> Wrth ymateb, dywedodd y canlynol:

*"Yn unol â'r confensiwn a gytunwyd rhwng y Senedd a'r Cwnsler Cyffredinol, rydym wedi sicrhau bod y pwerau hynny i wneud is-ddeddfwriaeth sy'n caniatáu diwygio darpariaethau yn y Bil ei hun i gyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Yr eithriad yw rheoliadau o dan adran 38 sy'n weithredol eu natur sy'n ymdrin â materion y mae angen i strategaethau caffael fynd i'r afael â nhw. Y rhai sy'n delio â materion gweithredol neu dechnegol nad ydynt yn newid pwrpas nac effaith y ddeddfwriaeth sylfaenol ei hun mewn unrhyw ffordd yw'r rhai yr ydym wedi pennu y dylid eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol."*<sup>54</sup>

---

## Ein barn ni

**71.** Credwn fod y pŵer yn adran 38(3)(a) o'r Bil yn bŵer Harri'r Wythfed eang, diderfyn i ddiwygio adran 38(2) i "pennu materion eraill y mae rhaid i strategaethau caffael ymdrin â hwy". Felly, nid ydym yn cytuno â barn y Dirprwy Weinidog bod y pŵer yn delio "â materion gweithredol neu dechnegol", ac o ganlyniad nid ydym yn credu bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y pŵer hwn. At hynny, nid ydym yn credu ei bod yn briodol arfer y pŵer yn adran 38(3)(b), er mwyn lleihau nifer y diwrnodau a ddarperir mewn strategaeth gaffael a ganiateir ar gyfer talu anfoneb, o dan y weithdrefn negyddol.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r pŵer yn adran 38(3)(a).

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Dirprwy Weinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r pŵer yn adran 38(3)(b).

**72.** Rydym hefyd yn nodi cyfeiriad y Dirprwy Weinidog at y "confensiwn a gytunwyd rhwng y Senedd a'r Cwnsler Cyffredinol" mewn cysylltiad â phwerau gwneud is-ddeddfwriaeth. Mae'n aneglur i ni pa gonfensiwn yw hyn.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Dirprwy Weinidog egluro at ba gonfensiwn y mae'n cyfeirio yn ei llythyr ar 15 Hydref 2022 at y Pwyllgor.

---

<sup>53</sup> Llywodraeth Cymru, Canllawiau Llywodraeth Cymru is-ddeddfwriaeth gweithdrefn gadarnhaol ddrafft neu negyddol y cynulliad, 11 Ebrill 2012

<sup>54</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 16

---

## Adran 48 (Dod i rym)

**73.** Mae adran 48(1) o'r Bil yn nodi, os caiff ei basio a'i ddeddfu, byddai'r Bil yn dod i rym "ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn".

**74.** Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog pryd y mae'n bwriadu i'r Bil ddod i rym, os caiff ei basio gan y Senedd. Wrth ymateb, dywedodd mai bwriad Llywodraeth Cymru oedd iddo ddod i rym "cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol", ac fel a ganlyn:

*"...[mae'r] pedair elfen y Bil yn gosod amrywiol ddyletswyddau a gofynion ar wahanol gyrff - gan gynnwys Gweinidogion Cymru. Bydd angen i rai adrannau o'r Ddeddf gael eu cychwyn mewn trefn benodol felly. Er enghraifft, mewn perthynas â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, byddem yn gobeithio cychwyn y darpariaethau penodi erbyn hydref 2023, gyda'r bwriad o wneud y penodiadau hynny, a bod y Cyngor yn gallu cyfarfod, cyn diwedd 2023.*

*O ran y dyletswyddau gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol, rydym yn bwriadu cyhoeddi cyngor cychwynnol yn ystod 2023 fel bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys unrhyw gyrff ychwanegol a ddaw o fewn cwrmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn gallu cynllunio'n briodol ar gyfer y dyletswyddau newydd hynny a deall beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Bydd angen ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ynghylch canllawiau statudol a lunnir o dan ddarpariaethau perthnasol y Bil, a chânt eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw, fel y gall cyrff cyhoeddus bennu neu adolygu eu hamcanion llesiant yn 2024, yn unol â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, yng ngoleuni'r canllawiau hynny. Yn ehangach, cyn belled ag y bo modd, byddwn hefyd yn ceisio cysoni'r cylchoedd pennu amcanion ac adrodd yn y ddeddfwriaeth hon â'r cylchoedd y mae ein partneriaid eisoes yn eu dilyn o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.*

*I droi at gaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol, tra bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn gyfrifol am sefydlu'r is-grŵp caffael cyhoeddus ei hun, mae gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu'r canllawiau, yr hyfforddiant a'r trefniadau monitro angenrheidiol y bydd eu hangen i gefnogi'r trefniadau hyn. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud drwy ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol a'r gymuned caffael cyhoeddus yng Nghymru, a bydd hynny'n parhau. Byddwn hefyd yn ceisio cydlynu'r newidiadau sy'n deillio o weithredu*

*Bil Caffael y DU yng Nghymru â'r darpariaethau yn ein Bil ni er mwyn osgoi gorlwytho darparwyr gwasanaethau â thon ar ôl ton o newidiadau statudol heb drefn.*"<sup>55</sup>

## **Ein barn ni**

---

**75.** Rydym yn cydnabod esboniad cynhwysfawr y Dirprwy Weinidog o ran pryd y mae'n disgwyl i ddarpariaethau'r Bil gael eu gweithredu.

---

<sup>55</sup> Llywodraeth Cymru, Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 14 Hydref 2022, ymateb i gwestiwn 17

---